

ADEILADU

Adeiladwch yrfa yn y byd adeiladwaith; disgwylir i'r diwydiant dyfu'n gynt yng Nghymru na gweddill y DU! O'r cartrefi a drigwn ynddynt i'r ffyrdd a yrrwn arnynt, mae cymaint o swyddi ar gael ar bob lefel - felly beth am fod yn rhan ohono?

Cymerwch olwg ar y swyddi sydd ar gael yn y sector hwn:

Gosod Brics

Yn union fel yr awgryma'r teitl, mae gosodwyr brics yn gosod brics, blociau concrid a deunyddiau eraill i adeiladu neu atgyweirio walïau, llefydd tân etc. Os nad oes gwahaniaeth gennych weithio yn yr awyr agored, yna dyma'r dewis i chi.

Sylfeini

Byddwch yn paratoui safle cyn i'r adeiladu gychwyn; gosod sylfeini, gosod pibwaith a gofalu dros ddraenio a cherrig llawr. Mae'r rôl hon yn sylfaenol ar ddechrau'r adeiladu.

Plastro

Gan ddefnyddio cot amddiffynol o blastr, byddwch yn paratoui'r walïau tu mewn cyn addurno. Mae angen lefel penodol o ffitrwydd gan y gallai fod yn waith corfforol caled.

Plymio

Byddwch yn fedrus mewn pibwaith a thiwbin i osod ac atgyweirio systemau gwres, draenio a dŵr yfed etc. Gallech weithio mewn sefyllfaoedd domestig a masnachol.

Peintio ac Addurno

Byddwch yn perffeithio'r cyffyrddiadau olaf, yn fewnol ac allanol, i strwythurau cadarn

at y dyfodol - o gartrefi i bontydd a chychod! Dyma'r yrfa i chi os ydych yn greadigol ac yn hoffi ymfalchïo yn eich gwaith.

Gwaith Coed a Gwaith Saer

Gan weithio gyda'i gilydd, mae seiri yn gwneud y fframïau coed (megis drysau, ffenestri) sy'n cael eu defnyddio gan weithiwr coed i adeiladu'r elfennau adeiladu. Mae'r cyfrifoldebau yn cynnwys gosod, adeiladu ac atgyweirio strwythurau a darnau gosod a wneir gan bren a deunyddiau cyffelyb eraill.

Gosodiad Trydanol

Rhoi'r sbarc yn ein cartrefi, swyddfeydd a ffermydd hyd yn oed! Mae trydanwyr yn gweithio gyda cheblau, gosodiadau goleuadau a switshis sy'n defnyddio cyflenwad pŵer. Cewch eich addysgu am y safonau diogelwch diweddaraf, gan gynnig gwasanaeth dibynadwy i gwsmerïaid.

Peirianneg Sifil

Mae peiriannwyr sifil wir yn siapio'r byd yr ydym yn byw ynddo; dylunio ac addasu ein ffyrdd, rheilffyrdd a phontydd i redeg yn effeithiol. I fod yn beiriannwr sifil, byddwch yn wych am ddatrys problemau ac yn mwynhau mathemateg a ffiseg.

MAE'R SWYDDI SY'N TYFU CYFLYMAF YN Y MAES HWN YN CYNNWYS PEIRIANNWYR SIFIL, CYNLLUNWYR TREF A PHENSEIRI, SYDD HEFYD YN DERBYN Y CYFLOGAU UCHAF YN Y DIWYDIANT.



Dolenni Defnyddiol

www.citb.co.uk/bconstructive
Prentisiaethau gyda CITB, Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant dros Adeiladwaith
www.careersinconstruction.com
Safle swyddi sy'n arddangos y gyrfaoedd presennol mewn adeiladwaith
www.goconstruct.org Gwybodaeth ar y sector adeiladwaith

Beth allaf i ei astudio, ac ymhle?

	Hyd	BG	DC
Adeiladu (Gwaith Brics) - Lefel 1	1 Flwyddyn	✓	✓
Peirianneg Sifil Adeiladu (Diploma Estynedig) - Lefel 3	2 Flynedd		✓
Gosod Trydanol - Lefel 1	1 Flwyddyn	✓	✓
Mewnosodiad Trydanol (Adeiladau a Strwythurau) - Lefel 2	1 Flwyddyn	✓	✓
Mewnosodiad Trydanol - Lefel 3	1 Flwyddyn	✓	✓
Gosod Brics - Lefel 2	1 Flwyddyn	✓	✓
Aml-sgiliau - Lefel 1	1 Flwyddyn	✓	✓
Gwaith Coed a Saernïaeth - Lefel 1	1 Flwyddyn	✓	✓
Gwaith Coed ar y Safle - Lefel 2	1 Flwyddyn	✓	✓
Peintio ac Addurno - Lefel 1	1 Flwyddyn	✓	
Peintio ac Addurno - Lefel 2	1 Flwyddyn	✓	
Plymio - Lefel 1	1 Flwyddyn	✓	✓
Astudiaethau Plymio - Lefel 2	1 Flwyddyn		✓
Astudiaethau Plymio - Lefel 3	1 Flwyddyn		✓
Plymio a Gwresogi - Lefel 2	1 Flwyddyn	✓	
Plymio a Gwresogi - Lefel 3	1 Flwyddyn	✓	



£25,339
£13.17/AWR

CYFLOG NODWEDIADOL AR GYFARTALED YN Y DIWYDIANT HWN



DISGWYLIR I 1 YM MHOB 4 SWYDD ADEILADWAITH GAEL EU LLENWI GAN FERCHED YN 2020